HARBWR SAUNDERSFOOT

a

CHANOLFAN ARFORDIROL RHYNGWLADOL CYMRU

Cynorthwyydd Gweithrediadau ac Ymwelwyr

Cyflog: £18,500 - £21,500 pa

Rôl: Contract Blwyddyn, Llawn amser

Mae Canolfan Arfordirol Rhyngwladol Cymru (CARhC) yn ddatblygiad £10 miliwn sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn Harbwr Saundersfoot, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, Corff Cyllido Ewropeaidd a Chronfa Cymunedau Arfordirol. Mae'r datblygiad newydd yn cynnwys Canolfan Groeso a Threftadaeth, Plaza Sgwâr Cefnfor ac Unedau Manwerthu, Llwyfan Achlysuron Cenedlaethol a Sgwner Arfordirol, Canolfan Rhagoriaeth Forwrol, a thair canolfan dehongli yn canolbwyntio ar dreftadaeth cloddio glo a morwrol Saundersfoot, a'r amgylchedd.

Fel rhan o'r datblygiad hwn mae Harbwr Saundersfoot nawr yn chwilio am Gynorthwyydd Gweithrediadau ac Ymwelwyr i gefnogi ein tîm rheoli gyda'r dodrefnu a gwaith parhaus Canolfan Arfordirol Rhyngwladol Cymru.

Cyfrifoldebau sylfaenol yn cynnwys:

- Cynorthwyo gyda'r gweithredu o ddydd i ddydd a rheoli cyfleusterau adeiladau'r Harbwr
- Cynorthwyo gyda chynnal a datblygu'r Ganolfan Groeso a Threftadaeth, Sgwner Arfordirol, a'r Ganolfan Storm.
- Cynorthwyo gyda threfnu, logisteg a rheoli achlysuron.
- Cynorthwyo gyda marchnata a hyrwyddo atyniadau ymwelwyr ac achlysuron.
- Cynorthwyo i gynnal, diweddaru a chynyddu presenoldeb ar-lein yr Harbwr.
- Delio â chwynion ac ymholiadau.

Os medrwch gynnig profiad o ran wynebu cwsmeriaid yn y diwydiant twristiaeth, rheoli cyfleusterau, cydlynu achlysuron, marchnata, cysylltiadau cyhoeddus, neu gyswllt cymunedol/cwsmeriaid, yna, fe hoffem glywed gennych.

Am ddisgrifiad llawn o'r swydd, ewch i'n gwefan **www.saundersfootharbour.co.uk**